PHYSICS MENTORING PROJECT | PROSIECT MENTORA FFISEG

Taflen Wybodaeth Mentor Ffiseg

Medi 2021

Pam mae angen y Prosiect Mentora Ffiseg ar Gymru?



Ffigur 1: Niferoedd Safon Uwch Gwyddoniaeth yn 2018 https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2018/main-results-tables/a-level-and-as-results-summer-2018

Bob blwyddyn, mae gwahaniaeth mawr rhwng nifer y merched sy'n astudio ffiseg Safon Uwch, o'i gymharu â'r rhai sy'n astudio bioleg neu gemeg. Wrth edrych ar gyrsiau ffiseg israddedig mewn prifysgolion yng Nghymru, roedd menywod yn cyfrif am 20.1% o'r myfyrwyr israddedig amser llawn a gofrestrodd yn 2017/18.

Beth yw'r Prosiect Mentora Ffiseg?

Mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru. Ei nod yw:

- Cynyddu nifer y myfyrwyr ysgol, yn enwedig merched, sy'n bwriadu astudio ffiseg ôl-16,
- Tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a hyrwyddo gyrfaoedd STEM i fyfyrwyr ysgol,
- Cynyddu hyder a gwydnwch myfyrwyr ysgol sy'n astudio Ffiseg,
- Hyrwyddo gyrfa dysgu i fyfyrwyr prifysgol israddedig ac ôl-raddedig,
- Cynyddu hyder, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, a darparu profiad CV i fentoriaid myfyrwyr,
- Cynyddu hyder athrawon ffiseg, yn enwedig y rhai nad ydynt yn arbenigwyr, yng Nghymru,
- Annog newid diwylliant mewn ysgolion sy'n cymryd rhan i hybu cydraddoldeb o ran rhywedd ar draws y cwricwlwm,
- Ymgysylltu ag ysgolion uwchradd Cymru, yn lleol ac yn genedlaethol.

Ceir dau gylch mentora ym mhob blwyddyn academaidd, ym mis Tachwedd a Rhagfyr, a Chwefror a Mawrth. Mewn cylch mentora, caiff pâr o Fentoriaid Ffiseg hyfforddedig ei baru ag ysgol leol, lle bydd yn cynnal chwe sesiwn fentora wythnosol gyda grwpiau o bedwar i chwech o fyfyrwyr o flynyddoedd ysgol 9 – 11. Bydd y sesiynau hyn o leiaf 45 munud o hyd ac yn dilyn themâu wythnosol penodol.

Yn ei flwyddyn beilot (Ionawr 2019 – Mai 2020), bu'r prosiect yn llwyddiannus iawn yn cyflawni ei nodau, gyda myfyrwyr ysgol a fentorwyd yn dangos cynnydd ystadegol arwyddocaol o ran bwriad i astudio Ffiseg Safon Uwch. Gallwch ddarllen mwy am ganlyniadau gwerthuso'r prosiect hyd yma ar y wefan.

Pwy all ddod yn Fentor Ffiseg?

Mae'r cylch hwn o recriwtio mentoriaid yn agored i unrhyw un sydd:

- yn fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, neu Brifysgol De Cymru,
- sydd â chymhwyster ôl-16 mewn Ffiseg (e.e. Safon Uwch, Bagloriaeth Ryngwladol, Highers yr Alban, ac ati),

- wedi ymrwymo i ymgysylltu'n llawn â'r prosiect a chyfathrebu â'r Cydlynydd Cenedlaethol, ac
- yn frwdfrydig dros Ffiseg, cynhwysiant mewn STEM ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr!

Caiff pob mentor ei hyfforddi'n llawn, ac felly anogir unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf uchod i wneud cais, ni waeth beth fo'i brofiad.

Pam ddylwn i ddod yn Fentor Ffiseg?

Gall Mentoriaid Ffiseg sy'n ymwneud â'r prosiect ac sy'n cyfathrebu â'r Cydgysylltydd Cenedlaethol elwa'n fawr o fod yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys manteision fel:

- Bwrsariaeth o hyd at £200 am bob grŵp mentora a arweinir.
- Y cyfle i gael hyfforddiant manwl a defnyddiol, a gynhelir dros dair wythnos (y gallwch ddarllen mwy amdano yn y blog gan Hanna, Mentor Ffiseg presennol),
- Y cyfle i gwblhau uned Lefel 4 mewn Cynyddu Ymgysylltu â Ffiseg drwy Fentora a achredir gan Agored Cymru, yn rhad ac am ddim.
- Profiad gwerthfawr i'w roi ar CV,
- Datblygu sgiliau cyflogadwyedd, fel cyfathrebu, gwaith tîm, a threfnu,
- Cynyddu hyder,
- boddhad personol o fod yn ysbrydoli cenhedlaeth o wyddonwyr ifanc,

Mae hwn yn gyfle arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr sy'n ystyried gyrfa dysgu, fel y gallwch ddarllen yn y blog hwn gan Lille, Mentor Ffiseg blaenorol.

Beth fyddaf i'n ei wneud fel Mentor Ffiseg?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, **bydd gofyn i chi fynychu hyfforddiant ar-lein rhwng y 4 a 23 Hydref 2021.** Byddwch wedyn yn dod yn aelod o'n cymuned o fentoriaid, sy'n cyflwyno Mentora Ffiseg mewn ysgolion ledled Cymru. Mae mentora'n cael ei gynnal mewn cylchoedd ac rydym yn paru mentoriaid ag ysgolion ar ddechrau pob cylch.

Ar ôl cael eich paru ag ysgol, byddwch chi'n cael cyfarfod cychwynnol â'ch cyswllt yn yr ysgol. Wedi hynny, byddwch chi'n gweithio gyda'ch cyd-fentor i baratoi a darparu chwe sesiwn fentora wyneb yn wyneb neu ar-lein i grŵp bach o fyfyrwyr ysgol blwyddyn 9-11 mewn ysgol uwchradd yng Nghymru. Ar ddiwedd cylch mentora, gofynnir i fentoriaid fynd i seremoni Wobrwyo a Chydnabod hefyd i ddathlu ymrwymiad a llwyddiannau'r mentoreion. Fel mentor, dylech barhau i gysylltu â'r Cydlynydd Cenedlaethol a'ch athro cyswllt drwy gydol y cyfnod a sicrhau bod unrhyw broblemau neu faterion perthnasol yn cael eu cyfleu'n brydlon.

Efallai y cewch gyfle hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill y mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn rhan ohonynt, er enghraifft eu cynnwys mewn fideos neu gynrychioli mentora mewn cynhadledd.

Sut mae gwneud cais?

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i fod yn Fentor Ffiseg, llenwch y ffurflen gais ar-lein hon a'i chyflwyno **cyn 23:59 ddydd Mercher 29 Medi 2021**.

Mae gennyf gwestiynau, pwy ddylwn gysylltu â nhw?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am fod yn fentor neu os ydych chi'n teimlo y byddech yn elwa o sgwrs gyffredinol am y cyfle, cysylltwch â'n Cydgysylltydd Cenedlaethol, Rosie: **physicsmentoring@caerdydd.ac.uk** .